

Archifau Morgannwg



DARGANFOD Y GORFFENNOL



Cynnwys



Cyflwyniad

2

Sgiliau

5

Partneriaethau

9

Y Casgliad

18

Cyflwyniad

Croeso i bedwerydd Adroddiad Blynyddol Archifau Morgannwg sy'n disgrifio gweithgareddau rhwng y cyfnod 1 Mawrth 2013 tan 28 Chwefror 2014.

Fel pob gwasanaeth archifau awdurdod lleol arall ein swyddogaeth ni yw casglu, cadw a sicrhau mynediad at ddogfennau hanesyddol yn ymwneud ag ardaloedd yr awdurdodau sy'n ein hariannu. Mae datblygiadau technolegol yn ein cynorthwyo i gasglu gwybodaeth ac yn ein drysu gyda heriau mewn perthynas â chynaliadwyedd a sgiliau newydd ond mae'r sgiliau sylfaenol yn parhau'r un fath o hyd. Mae effaith newid economaidd a chymdeithasol yn amlygu ei hun drwy ragor o dderbyniadau gan sefydliadau cyhoeddus sy'n cael eu gwasgu, toriadau i gyllidebau a chynnydd o ran y galw i ni ddangos ein cyfraniad i gymdeithas. Mae'r olaf i'w groesawu. Fel gwasanaeth ar y cyd i chwe awdurdod lleol rydym yn gweithio ar sail blaenoriaethau Llywodraeth Cymru drwy annog mynediad at dreftadaeth gan grwpiau difreintiedig, datblygu sgiliau drwy wirfoddoli a gwaith sy'n seiliedig ar ddysgu a chyfrannu at yr economi leol, yn benodol drwy gynhyrchu rhagor o incwm. Braf oedd cael cydnabod ein hymdrechion mewn adroddiadau i Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Ym mis Ionawr, er enghraifft, nododd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Adroddiad Williams) fod cydwasanaethau archifau Cymru ymhlith y gorau yn y DU.

Mae cyfraniad sefydliadau diwylliannol a threftadaeth i'r gwaith o fynd i'r afael â thlodi a'r anghydraddoldeb a ddaw yn ei sgil wedi bod yn destun adroddiadau diweddar yng Nghymru ac yn Lloegr. Ymgynghorwyd ag Archifau Morgannwg a gyfrannodd sylwadau ac astudiaeth achos at adroddiad y Farwnes Kay Andrews i Lywodraeth Cymru, *Diwylliant a Thlodi*. Tra bod gweithgareddau gyda phartneriaid yn bwysig iawn mae'r catalog electronig yn galluogi pobl i fynd ati i chwilio am adnoddau yn eu hamser a'u cymunedau eu hunain. Mae gwaith cadwraeth a chatalogio manwl yn sicrhau bod deunyddiau defnyddiol ar gael yn rhwydd ac mae cyfryngau cymdeithasol yn chwalu rhwystrau ac yn cysylltu â'n gwasanaethau a'n cyfleusterau yn y fan a'r lle.

Mae ein rhaglen rhannu sgiliau yn parhau i ddatblygu gyda chynnydd boddhaol o ran nifer y lleoliadau gwaith o asiantaethau cyflogaeth gyda chefnogaeth. Mae cyfraniad y staff yn y rhaglen hon wedi'i ymestyn i gynnwys trefniadau i rannu sgiliau yn fewnol. Mae datblygiad proffesiynol yn cael ei hyrwyddo drwy leoliadau gwaith i fyfyrwyr cadwraeth, yn bennaf o Brifysgol Caerdydd, ac interniaethau archifau drwy'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithio Rhanbarthol (ECTARC). Rydym ar hyn o bryd yn cynnal ein trydydd lleoliad gwaith drwy ECTARC; mae'r holl fyfyrwyr wedi dod o Gatalonia ac mae pob un ohonynt wedi bod yn ardderchog.



Gellir cyfrifo cyfraniad sefydliadau treftadaeth i economïau lleol yn ôl gwariant ymwelwyr, cyflogaeth a chymorth gan gyflenwyr rhanbarthol. Mewn amgylchedd o bwysau cyllidebol parhaus mae angen cyfraniad mwy uniongyrchol. Mae gwasanaethau yn ystod oriau agor ar gael am ddim o hyd ac mae cynigion i gynhyrchu incwm yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn ychwanegu gwerth yn hytrach nag amharu ar swyddogaethau craidd. Felly, drwy osod ystordai gwag i bartneriaethau treftadaeth gallwn gefnogi'r gwaith o sicrhau bod asedau treftadaeth lleol yn goroesi. Mae gwasanaethau cadwraeth i gleientiaid allanol yn sicrhau bod eitemau treftadaeth yn goroesi yn gyfnewid am elw bach ac yn golygu bod staff yn gallu datblygu eu sgiliau. Yn yr un modd, mae llogi ystafelloedd cyfarfod nas defnyddir i sefydliadau hyfforddiant yn cynyddu lefel sgiliau cyffredinol yn lleol, yn codi proffil y gwasanaeth ac yn annog pob math o grwpiau i'w defnyddio. Gan fod yr adeilad yn gwbl hygyrch a'n cyfraddau llogi yn rhesymol dros ben, mae llawer o'r rhain yn cynrychioli cymunedau ac unigolion difreintiedig na fyddant yn dod i gysylltiad â ni fel arall.

Mae oedi biwrocraidd ac atal prosesau yn nodweddiadol o waith uwch swyddog llywodraeth leol y dyddiau hyn. Mae'r ffaith nad ydynt wedi amharu ar berfformiad cyffredinol y gwasanaeth yn ganlyniad i lawer o flynyddoedd o waith yn datblygu tîm ymrwymedig â'r sgiliau priodol sy'n fwy nag abl i gynnig gwasanaeth rhagorol heb fawr oruchwyliaeth.



Sgiliau

Yn ystod y flwyddyn mae 48 o wirfoddolwyr wedi cyfrannu 4,643 o oriau i waith y swyddfa. Mae hyn gyfwerth â 2.8 aelod o staff llawn amser. Mae'r ffigyrau yn cynnwys wyth myfyriwr profiad gwaith o ysgolion lleol. Mae gwirfoddolwyr yn dod o'r chwe awdurdod sy'n ein hariannu ac eithrio Merthyr Tudful ac rydym hefyd wedi croesawu pobl o Sir Benfro, Casnewydd, Gwlad yr Haf a Barcelona.



Mae'r gwaith a gyflawnir ganddynt yn ychwanegu at waith staff y sefydliad. Mae projectau gwirfoddoli presennol yn cynnwys glanhau cytundebau criwiau llongau a gofrestrwyd ym mhorthladd Caerdydd a'u rhoi mewn bocsys newydd, rhestru eitemau cynlluniau rheoli adeiladu ar gyfer Rhondda a Phen-y-bont ar Ogwr, rhestru cynnwys llyfrau lloffion a gasglwyd gan Arthur McTaggart Short o Gaerdydd rhwng 1915 a 1975, nodi eitemau diddorol o ddyddiaduron Henry Fothergill 1860-1914, perchennog a rheolwr gwaith haearn Abernant a Llwydcoed, a mynegeo'r gofrestr o gleifion gwrywaidd yn Ysbyty Meddwl y Sir. Mae gwirfoddolwyr yn parhau i nodi manylion am fywyd yng Nghymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys cofnodion llongau, ysgolion ac awdurdodau lleol, gan ei gwneud yn llawer haws i ni helpu grwpiau ac ysgolion lleol gyda'u cynlluniau coffáu.

Mae rhestrau a deunydd ychwanegol a luniwyd gan wirfoddolwyr yn cael eu hychwanegu at y catalog electronig, Canfod. Mae'r diweddaraf o'r rhain yn cynnwys mynegai o gollfarnau pobl ifanc. Mae myfyrwyr cadwraeth ac archifau yn cyflawni tasgau mwy proffesiynol dan oruchwyliaeth i adeiladu ar eu profiad a datblygu sgiliau ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae staff, yn eu tro, yn manteisio ar y cyfle i gael y wybodaeth ddiweddaraf ar arfer cyfredol wrth rannu eu gwybodaeth ac arbenigedd.

Mae llawer o bobl yn gwirfoddoli er mwyn pleser ac mae'n werth nodi bod gwaith ymchwil diweddar yn awgrymu bod gwirfoddoli yn rheolaidd yn hyrwyddo bywyd hirach a hapusach. Mae eraill yn ei ddefnyddio fel llwybr i waith a thros y flwyddyn mae nifer o wirfoddolwyr a chyn-wirfoddolwyr wedi cael eu derbyn ar gyrsiau proffesiynol, wedi cael gwaith neu eirdaon. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf lluniwyd rhaglen i wirfoddolwyr ar y sbectrwm awtistig sydd o fudd i'r ddwy ochr. Mae cyfraniad gwirfoddolwyr yn cael ei gydnabod mewn adroddiadau i bwyllgor a'i ddathlu gyda the parti Nadolig lle cafodd gwirfoddolwyr y cyfle i gymdeithasu gyda staff a chyfarfod aelodau o'r Cydbwyllgor.



Mae staff wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau i rwydweithio â darparwyr lleoliadau ac i annog cyfranogiad pellach. Roedd y rhain yn cynnwys sesiwn gyrfaoedd ar ffurf “gwib garu” ym Mhrifysgol Caerdydd, seremonïau yn Quest ac Asiantaethau Cyflogaeth â Chymorth Elite a Diverse Cymru, a Siop Haf Wirfoddoli a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Gwirfoddoli Cymunedol yng nghanolfan siopa Capitol yng Nghaerdydd. Mae cydlynwyr gwirfoddoli Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Gymdeithas Archifau Catholig wedi gofyn am gyngor gennym.



Mae Diogelu Treftadaeth Cymunedau Lleol ar ei gam olaf. Mae project Sgiliau'r Dyfodol Cronfa Dreftadaeth y Loteri, CLOCH, wedi cynnig hyfforddiant yn seiliedig ar waith i 16 deiliad bwrsariaeth dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r project, sef partneriaeth a arweinir gan Archifau Morgannwg, yn dod ag archifau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd ledled De Cymru ynghyd i gynnig lleoliadau gwaith, profiad gwaith a chymwysterau sylfaenol yn y sector. Dechreuodd y grŵp hyfforddiant olaf ar eu lleoliadau gwaith ym mis Ionawr.

Mae hyfforddiant staff wedi cynnwys mynychu gweithdai ar gynnal adolygiad gwasanaeth, ar agwedd ‘Casglu Diwylliannau’ Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac ar y broses Achredu Archifau, diwrnodau hyfforddiant ar apelio i'r eithaf at y cyfryngau, blaengynllunio ac achub eitemau mewn trychineb, cyrsiau ar feithrin perthnasodd yn y gwaith, cymorth cyntaf iechyd meddwl a rheoli risg.



Mae staff wedi cymhwyso fel cynrychiolwyr iechyd a diogelwch yn y gwaith, hyfforddiant codi a chario ac aseswyr cyflawniad galwedigaethol ac maent yn cwblhau cymwysterau rheoli gwirfoddolwyr. Maent wedi mynychu ac annerch Cynhadledd y Gymdeithas Archifau a Chofnodion, wedi mynychu digwyddiad cynllunio Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd y Plant, ‘Newid Diwylliant; Annog Cyfranogiad gan Gynulleidfaoedd dan Anfantaï’, a chyflwyniad gan Grŵp Ymgysylltu'r Fyddin. Maent hefyd wedi cyfrannu at amrywiaeth o bartneriaethau a grwpiau treftadaeth lleol â'r nod o hwyluso gwaith partneriaeth a rhannu arfer gorau ac wedi bod mewn cysylltiad â nifer o grwpiau ac is-grwpiau proffesiynol yng Nghymru ac yn y DU.

Mae nifer o staff yn cael cymorth i astudio fel rhan o'n hymrwymiad i ddatblygu ac ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Partneriaethau

Mae gwaith partneriaeth yn ein helpu i gyrraedd amrywiaeth eang o ddefnyddwyr a chyfuno ein sgiliau a gwybodaeth gydag arbenigedd lleol a phenodol. Mae staff wedi mynychu digwyddiadau treftadaeth ym mhob rhan o ardaloedd yr holl awdurdodau sy'n ein hariannu. Eleni rydym wedi llunio arolwg i alluogi darpar ddefnyddwyr i nodi rhwystrau o ran defnyddio'r cyfleusterau sydd gennym ar ein safle. Rydym hefyd wedi ymrwymo i barhau â phartneriaethau presennol wrth i ni ddatblygu ac ystyried rhai newydd gan fod mor gynhwysol â phosibl. Mae ein gwaith gydag Archif Menywod Cymru, er enghraifft, yn hir sefydlog ac rydym yn parhau i gael budd o dderbyniadau ac ymchwil i hanes menywod o ganlyniad. Eleni mae ein partneriaeth gyda'r Grŵp Treftadaeth Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) wedi datblygu aelodaeth o'r Fforwm LHDT Lleol a phresenoldeb cryf mewn digwyddiadau yn dathlu Mis Hanes LHDT Cymru gan gynnwys y lansiad yn y senedd a diwrnod hanes yn Amgueddfa Werin Cymru. Yn y cyfamser roeddem yn falch o gael ein gwahodd i gynnal y Chanukah yn Synagog Ddiwygiedig Caerdydd ac i lansiad Cyngor Hindŵiaid Cymru yn y Senedd.





Rydym hefyd yn falch o barhau â'n partneriaeth gyda Phobl yn Gyntaf Caerdydd, grŵp hunan eiriolaeth o bobl ag anableddau dysgu, yn eu project Llais y Gymuned a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Gyda Phobl yn Gyntaf Casnewydd maent yn creu Llwybr Treftadaeth amlddiwylliannol ar draws y ddwy ddinas, a gaiff ei ymchwilio a'i ddylunio gan aelodau o gefndiroedd du neu leiafrifol ethnig. Yn gynharach yn y flwyddyn roedd eu hymgais yng nghystadleuaeth ymgyrch farchnata archifau Cymru Adroddwch eich Story ymhlith tri o enillwyr o Forgannwg. Cafodd yr aelodau eu ffilmio yn adrodd eu hanes yn gwneud gwaith ymchwil ar gyfer project Ysbyty Trelái yn yr Archifau. Mae'r ffilm ar gael i'w gweld ar ein sianel ar YouTube sef:

<http://www.youtube.com/user/GlamorganArchives>

Mae parhad Project Treftadaeth CAER gyda Phrifysgol Caerdydd wedi gweld myfyrwyr ysgol yn edrych ar gofebau i farwolaethau'r Rhyfel Byd Cyntaf ym mynwent Trelái ac yn sgil arian grant gan Llywodraeth Cymru cynhaliwyd gweithdy ar 'Ganfod Tlodi'. Ymchwiliodd disgyblion i dlodi plant yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr Archifau, gan lunio bwrdd stori ar sail sgwrs rhyngddynt eu hunain a phlentyn o'r gorffennol, a datblygu cymeriadau a theatr bypedau i gynrychioli'r deialogau. Dyma ddywedodd un o'r athrawon a oedd ynghlwm wrth y project:

'Roedd ddoe yn llwyddiant gwirioneddol. Roedd Bl7 wedi mwynhau'r profiad yn arw... [roedd un o'r disgyblion] yn sôn am ei gymeriad a phan wnes i awgrymu fod y cyfan yn swnio'n drist iawn doedd e ddim yn hapus o gwbl a dywedodd ei fod yn 'cŵl.' Mi gefais i fy rhoi yn fy lle! Diolch yn fawr iawn i chi â'ch tîm am eich amser a'ch cefnogaeth barhaol.'



Drwy ein cyswllt â CAER cawsom ein gwahodd i gymryd rhan yn nathliadau pen-blwydd y Deml Heddwch yng Nghaerdydd yn 75 oed. Roedd y gweithgareddau a gynigiwyd yn cynnwys dylunio baner yn seiliedig ar ffotograffau oedd gennym o'r rheiny a fu yng Ngwersyll Heddwch Comin Greenham. Sylwodd un ymwelydd ar faner a grëwyd gan ei bartner a rhoddwyd copi ohoni iddo.

Cafodd yr animeiddiad *Môr o Eiriau* a gynhyrchwyd mewn partneriaeth â'r Archifau Seneddol ei lansio yn Nhaf'r Senedd. Ysbrydolwyd *Môr o Leisiau*, a gynhyrchwyd gan yr artist Trevor Woolery, gan waith ymchwil yn Archifau Morgannwg a'r Archifau Seneddol gan aelodau o Grŵp Hanes Lleol Grangetown. Mae'n adrodd hanes y capten Ilong David Morse a deithiodd i'r Senedd i gyflwyno tystiolaeth ar Fil Dociau Bute 1865. Gellir gweld yr animeiddiad drwy sianel Archifau Morgannwg ar YouTube sef www.youtube.com/user/qlamorganarchives

Mae'r astudiaeth achos ar y gwaith a gyflawnwyd gan Gymdeithas Hanes Lleol Grangetown ac Ysgol Gynradd Mount Stuart ar broiect partneriaeth yr Archifau Seneddol, Dros Donnau Amser, bellach ar gael ar wefan yr Archifau Seneddol sef www.parliament.uk/communities

O ganlyniad i'r bartneriaeth hirdymor hon mae Cymdeithas Hanes Grangetown yn dal i ddefnyddio archifau ac mae staff yn mynychu digwyddiadau'r gymdeithas tra bod Ysgol Gynradd Mount Stuart yn dod â dosbarthiadau i'r archifau bob blwyddyn i gymryd rhan mewn gweithdai.

Mae projectau newydd wedi cynnwys project Cronfa Dreftadaeth y Loteri Gweithdy'r Menywod Caerdydd, 'Mamau Ddoe a Heddiw', yn edrych ar fywydau menywod dros y cenedlaethau. Mae'r project yn Butetown yn broiect amlhiliol a rhwng cenedlaethau a'n rôl ni yw cyflwyno'r menywod ifanc i ymchwil hanes teulu a'r Casgliad. Rydym hefyd yn gweithio gyda Sefydliad y Deillion Caerdydd ar gynllun peilot i wella hygyrchedd archifau i bobl sydd â nam ar eu golwg.



Mae partneriaethau eraill yn ein galluogi i gyfrannu at wella iechyd. Sefydlwyd cysylltiadau gyda menter Allan a Ni Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n annog gweithgaredd corfforol a hyrwyddo iechyd a lles, yn enwedig ymhlith pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae Allan a Ni yn gweithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru. Mewn project arall gydag academydd o Brifysgol Caerdydd rhoddwyd delweddau fel cliwiau ar Twitter i annog pobl i ddefnyddio llwybr cerdded ar hyd Camlas Morgannwg. Rydym hefyd wedi datblygu syniad gwreiddiol gan Archifau Gwent i greu'r rhaglen Cam Nôl Mewn Amser, a gyflwynwyd yn ystod hanner tymor eleni ym Maesteg a Merthyr Tudful. Mae'r digwyddiad, a luniwyd i fod yn ddiwrnod dysgu rhwng cenedlaethau a ariennir gan CyMAL, yn tywys cyfranogwyr (gorau oll neiniau a theidiau sy'n gwarchod plant) ar daith gerdded o amgylch eu tref a arweinir gan hanesydd lleol. Yn dilyn y daith caiff cyfranogwyr eu hebrwng i'r Archifau am ddim i weld beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni a gweld dogfennau o'u hardal. Mae'r diwrnodau hyn wedi bod yn llwyddiant. Dyma rai o'r ymatebion: *...mae fy mab... nawr yn gwybod mwy am fy achau na mi! Diolch yn fawr Archifau Morgannwg... Syniad gwych ac uchafbwynt yr hanner tymor.* Mae'r sylwadau wedi'n hannog i gynllunio ar gyfer ymestyn y rhaglen i ardaloedd eraill yn ein hawdurdodau pan fydd cyllid ar gael. Cafodd y diwrnod ym Merthyr Tudful gyhoeddusrwydd pellach gan iddo gael ei ddangos ar raglen Heno S4C.

DEFNYDDWYR

Croesawyd cyfanswm o 420 o fyfyrwyr ysgol o 14 o ysgolion i'r archifau eleni.

Pen-y-bont ar Ogwr: Ysgol Gynradd Cwmfelin

Caerdydd: Ysgol Gynradd Mount Stuart, Ysgol Gynradd Parc Ninian, Ysgol Gynradd Cuthbert Sant, Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Uwchradd Fitzalan, Ysgol Uwchradd Glyn Derw, Coleg Llanfihangel

Rhondda Cynon Taf: Ysgol Gynradd Y Porth, Ysgol y Bechgyn Aberdâr, Ysgol y Merched Aberdâr, Ysgol Gyfun Blaengwawr

Bro Morgannwg: Ysgol Gynradd Llandochoau, Ysgol Gyfun Bechgyn y Barri

Mae myfyrwyr o Goleg Pen-y-bont, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru wedi mynychu sesiynau ar hanes, ysgrifennu creadigol, Cymraeg ac astudiaethau'r cyfryngau.





Am y tro cyntaf yn ein hanes trosglwyddwyd ein swyddfa i 25 o ddisgyblion o Ysgol Gynradd Cwmfelin ger Maesteg fel rhan o'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd, digwyddiad i blant a gynhaliwyd ledled y DU. Roedd Archifau Morgannwg yn un o ychydig iawn o wasanaethau archifau a gymerodd ran yn y fenter. Cyn belled â phosibl roedd disgyblion yn cyflawni gweithgareddau go iawn. Fe'u rhannwyd i'r timau yn y swyddfa. Bu'r rheiny a oedd yn gweithio gyda'r tîm adnoddau yn helpu gyda'r daith wythnosol o amgylch yr adeilad i ganfod diffygion, rhoi pecynnau at ei gilydd ar gyfer cynhadledd a dylunio poster i hyrwyddo ein cyhoeddiadau. Yn yr adran Gatalogio roeddent yn dethol ac yn rhestru casgliad bach ac mae eu catalog bellach ar gael drwy Canfod. Bu'r tîm Cadwraeth yn glanhau ac yn ailbacio dogfennau, monitro amodau amgylcheddol ac edrych ar y trapiau plâu sydd wedi gosod yn yr adeilad. Roedd y tîm Mynediad yn cofrestru defnyddwyr newydd, casglu dogfennau o'r ystafelloedd diogelu, cyflawni archebion am ffotograffau digidol a dysgu sut i ymateb i ymholiadau ymchwil. Bu'r disgyblion yn yr adran Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn hebrwng grŵp o ymwelwyr o amgylch yr adeilad. Gwnaethant hefyd feddiannu cyfrif Twitter @GlamArchives (dan ychydig o oruchwyliaeth).

Ar ddiwedd y dydd cyflwynwyd tystysgrif i bob disgybl a bocs a phensil Archifau Morgannwg. Mae'r ysgol o'r farn fod y digwyddiad wedi bod yn llwyddiant ysgubol, roedd y staff wedi mwynhau ac rydym yn gobeithio cynnal digwyddiad tebyg eto: os gallwn ddod o hyd i ddosbarth sy'n fodlon rhoi cynnig arni.

Er bod nifer gynyddol o'n defnyddwyr yn ymweld â ni mewn grwpiau, mae ymweliadau gan unigolion i'r ystafell chwilio wedi aros tua'r un fath, sef **3196**. Mae ymholiadau o bell yn parhau i gynyddu, gyda **5276** o ymholiadau wedi dod i law eleni.

Mae adborth ar y ddau wasanaeth yn gadarnhaol yn ddi-ffael, dyma flas o rai ohonynt:

Dim ond e-bost cyflym i ddiolch i'r aelod o staff a roddodd help i'm gŵr a mi.... Dyma'r tro cyntaf i ni ddefnyddio gwasanaeth archif ac felly roedd angen llawer o gymorth arnom ac fe ofynnnon ni lawer o gwestiynau ac roedd e mor amyneddgar gyda ni â'n hymholiadau annelwig... Mae'ch gwasanaeth mor bwysig ac roeddwn mor falch o weld bod gennych staff ymroddedig a gwasanaethau rhagorol... roeddem wrth ein bodd yn chwilio am y llun gyda'i gymorth a llwyddo i gael gafael arno.

Rydych chi wedi bod yn gymwynasgar iawn ac wedi rhoi llawer mwy o wybodaeth i mi nag yr oeddwn yn gobeithio ei chael.

Rwyf wedi cael fy siomi ar yr ochr orau o ran eglurder... y ddelwedd a anfonwyd gennych. Mae'r gallu i edrych mor bell yn ôl i'r gorffennol yn brofiad gwerth chweil. Hefyd mae gan fanylder y wybodaeth ei effaith emosiynol ei hun. Am eiliad mae fel petaech yno yn dyst i'r garreg filltir sydd ar gof a chadw.

Mae llwyddiant digwyddiadau'r haf y llynedd wedi ein hannog i'w hailadrodd, gan ddechrau gyda 'Gwneud Argraff', dau weithdy ar seliau canoloesol a gyflwynir ar y cyd â Dr Elizabeth New o Brifysgol Aberystwyth. Cynhaliwyd tymor llawn o ddarlithoedd cyhoeddus ym mis Awst gyda sesiynau addysgiadol gan Nina Jenkins ar y *Prydeinwyr yn India*, Ceri Thompson, Curadur Big Pit ar *Gasglu Hanes Pobl yn Big Pit* a Dean Powell ar *Dr William Price o Lantrisant*. Cawsom hefyd y cyfle i ddangos yr arddangosfa *Ffoaduriaid Iddewig yn Ne Cymru* a fenthycwyd gan Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gan groesawu atom unwaith eto Dr David Morris o Wasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, curadur yr arddangosfa. Siaradodd David Morris ar y testun hanes ffoaduriaid Iddewig yn Ne Cymru, gan ddangos ffilm deimladwy lle gwelwyd Ellen Davies o Abertawe, un o ffoaduriaid y kindertransport, yn adrodd ei stori. Dangoswyd dogfennau o'r Casgliad yn nodi cyfraniad ffoaduriaid Iddewig i economi a datblygiad Morgannwg yn ogystal.

Mae ymdrechion i annog ymwelwyr o'r awdurdodau pell sy'n cyfrannu at ein gwaith yn dechrau dwyn ffrwyth. Eleni buom yn canolbwyntio ar Ben-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful, ac yn ogystal â digwyddiadau Cam Nôl Mewn Amser yn y ddau awdurdodroedd yn bleser croesawu Grŵp Treftadaeth Soar o Ferthyr, grŵp 'Catching the Wave' Porthcawl, Grŵp Hanes Coytrahen, Cymdeithas Treftadaeth Cwm Garw, Cymdeithas Hanesyddol Cwm Ogwr ac Ymddiriedolaeth Ddinesig Porthcawl, oll o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae grwpiau o ardaloedd eraill, yn ychwanegol at y rhai y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad hwn, wedi cynnwys Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth, gwirfoddolwyr Gerddi Duffryn, Clwb 41 Penarth, dosbarth hanes tŷ Gwenfô, cangen Cwm Cynon o Gymdeithas Hanes Teulu Morgannwg, Grŵp Cymunedol Archeoleg Cymru, sawl dosbarth hanes teulu o Ronda Cynon Taf a Bro Morgannwg a Sefydliad y Merched Penarth a Thon-teg. Mae rhai wedi dychwelyd eto yn ystod y flwyddyn.



Y Casgliad

Y Casgliad

Mae'r catalog electronig, Canfod, bellach yn cynnwys 200,000 o gofnodion.

Amcangyfrifir fod gan yr adeilad ddigon o ofod ehangu am 21 mlynedd ac mae derbyniadau yn cael eu monitro i sicrhau nad ydynt yn mynd heibio'r swm a ragwelir. Ar hyd o bryd nid oes perygl o hynny, er bod derbyniadau yn cynyddu bob blwyddyn. Eleni rydym wedi cael 290 o dderbyniadau ac mae rhai ohonynt yn fawr iawn. Ychwanegwyd nifer a math y silffoedd gwag at y gronfa ddata o leoliadau er mwyn ein galluogi i nodi'r gofod croniadol yn gywir.

Chwarter	Nifer y derbyniadau	Derbyniadau mewn metrau ciwbig (yn fras)	Nifer y silffoedd safonol (yn fras)
01/03/2013-31/05/2013	72	13.697	114
01/06/2013-31/08/2013	92	12.888	107
01/09/2013-30/11/2013	72	5.065	42
01/12/2013-28/02/2014	54	3.177	26
CYFANSWM	290	34.827	289



Eleni rydym wedi derbyn nifer annisgwyliedig o gyfraniadau gan ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae gan rai ysgolion gasgliadau yn barod; nid oedd gan eraill gynrychiolaeth yma.


Y ddogfen hynaf a ddaeth i law oedd Cofrestr o Ysgol Llanfabon yn dyddio o 1865; y ddogfen ddiweddaraf oedd cylchlythyr ysgol gan Ysgol Uwchradd Llanrhymni yn dyddio o 2013. Rydym bob amser wrth ein bodd i gael cyfraniadau gan ysgolion ac mae'n dda cael cymaint gan ysgolion sydd heb roi deunyddiau i ni o'r blaen.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn dda o ran cofnodion adeiladau hefyd. Daeth casgliad mawr i law gan Bartneriaeth Percy Thomas, sy'n gyfrifol am ddylunio sawl adeilad adnabyddus yng Nghaerdydd gan gynnwys Adeilad Bute a'r Deml Heddwch. Mae dyluniadau nodedig eraill yn cynnwys Canolfan Ddinesig Abertawe a Champws Prifysgol Aberystwyth. Urddwyd Percy Thomas yn farchog ym 1946. Un o broiectau olaf y Bartneriaeth oedd dylunio Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd a gwblhawyd yn 2004.

Mae adeilad mileniwm arall Caerdydd, Stadiwm y Mileniwm, yn ymddangos mewn papurau gan Peter Randles a oedd yn gysylltiedig â gwaith paratoadol proffesiynol ar broject yr adeilad ar gyfer John Laing Construction Limited. Mae'r papurau yn cynnwys copïau o'r dogfennau dylunio ac adeiladu, a lluniadau'r project ynghyd â ffotograffau o'r awyr o Barc yr Arfau Caerdydd, y stadiwm genedlaethol flaenorol. Hefyd, mae ffotograffau a phosteri'n gysylltiedig â charfan Rygbi Cymru a rygbi yng Nghymru.

Ymysg nifer o ddeunyddiau a drosglwyddwyd o Ganolfan Hanesyddol Pontypridd roedd papurau Thomas Morgan o Bontypridd, Penseiri. Yn dyddio o 1905 i 1972 mae'r casgliad yn cynnwys mapiau a chynlluniau gan gynnwys hosteli, sinemâu a neuaddau biliards, yng Nghwm Rhondda gan mwyaf. Cynrychiolir cwmni arall o'r Rhondda gan gasgliad bach sy'n cynnwys llyfrau archebion ac archebion ar gyfer gwaith adeiladu ac eirch. Papurau Jonathan Thomas o Ynysybwl yw'r rhain, a sefydlodd Morgan and Thomas, contractwyr adeiladu ac ymggymerwyr ym 1919.





Cyn y gyflwynwyd cynlluniau rheoli adeiladu Cyngor Dosbarth Trefol Penarth i ni, nid oedd gennym unrhyw gynlluniau adeiladu awdurdod lleol gyfer dwy ganolfan drefol Bro Morgannwg, Y Barri a Phenarth. Unwaith y caiff y deunydd presennol ei lanhau, ei ddidoli a'i restru, bydd mwy na 3000 o gynlluniau o tua 1880 i 1947 ar gael yn croniclo hanes pensaernïol a thwf treflun Penarth.

Gyda digwyddiadau coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ar y gorwel, mae derbyn papurau personol rhai o'r milwyr yn galonogol iawn.

Ganwyd Hiram Davies ym Maesteg ym 1888. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Oakwood cyn mynd i weithio yng Ngwaith Glo Garth Celtic. Yn fuan wedi dechrau'r rhyfel, ymunodd Hiram â 10fed Bataliwn y Catrawd Gymreig, Adran y Rhondda, gyda'i frawd Illtyd. Lladdwyd Illtyd yn Salonika ym Mrwydr Doiran ym 1917. Bu Hiram yn ymladd yn Ffrainc a Gwlad Belg, gan oroesi sawl ymosodiad nwy. Dyfarnwyd iddo'r Fedal am Ymddygiad Nodedig ym 1918. Mae'r papurau yn cynnwys cofnodion ei wasanaeth rhyfel, papurau a gohebiaeth ynghylch ei bensiwn rhyfel, llyfr presenoldeb a gwblhawyd yn rhinwedd ei swydd fel Siarsiant ar ddiwedd y rhyfel, a ffotograff o ddathliad heddwch Cwmfelin, Gorffennaf 1919.





Ganwyd David Jenkins yn Nhreharris ym 1896. Ymunodd â'r Gatrawd Gymreig ym 1915 a bu'n ymladd yn Ffrainc. Ar ôl anafu ei ben yn Cambrai Wood fe'i anfonwyd i'r Royal Canadian Military Hospital yn Cliveden, Berkshire, Lloegr. Roedd y bendro yn golygu na allai weithio fel glöwr ac fe gafodd waith fel postmon. Bu farw ym 1975. Cyflwynwyd tri ffotograff ohono a dynnwyd pan fu'n gwella yn yr ysbyty.

Rydym hefyd wedi gallu dathlu a chofnodi bywydau menywod eithriadol megis Beti Rhys (1907-2003) a oedd yn athrawes ysgol ac awdur ffuglen a llyfrau ffeithiol, yn y Gymraeg yn bennaf. Fe'i ganed ym Mhort Talbot ym 1907. Yn ddiweddarach roedd yn byw yn Aberdâr. Ar ôl i'w thad symud i Gaerdydd i wasanaethu fel gweinidog y Methodistiaid Calfinaidd, fe'i haddysgwyd yn Ysgol Howell, Llandaf ac yn ddiweddarach yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Daeth yn athrawes ysgol, a bu'n gwasanaethu yn Ysgol Uwchradd Pentre, Y Rhondda. Ym 1950 agorodd Beti Rhys siop lyfrau yn Arcêd y Castell, Caerdydd. Roedd y siop yn gwerthu llyfrau Cymraeg ac academiaidd yn bennaf. Roedd y siop yn boblogaidd gyda phobl lenyddol a gwleidyddol, ac yn ddiweddarach agorodd siop lyfrau arall ym Mhlas-y-Parc.

Eleni mae Archifau Morgannwg yn dathlu ei ben-blwydd yn 75 oed. Dechreuodd y dathliadau gyda lansiad blog yn seiliedig ar y 75fed eitem i ddod i law ym mhob blwyddyn ers sefydlu'r gwasanaeth ym 1939. Yn dilyn cyflwyniad gan Archifydd Morgannwg mae staff o bob rhan o'r swyddfa yn cyfrannu at y blog sydd wedi cael derbyniad da gan y cyhoedd. Ewch i gael golwg ar y blog a rhoi eich sylwadau. Hefyd dilynwch ein cyfrif ar Twitter a'n hoffi ar Facebook i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gweithgareddau, ein gwaith cymunedol a'n hymddangosiadau ar y cyfryngau.

I nodi 30ain pen-blwydd Streic y Glowyr rydym wedi ailgyhoeddi pâr o gynlluniau meysydd glo a gyhoeddwyd gan y swyddfa yn y 1990au, a welir ar ein clawr cefn. Mae'r cynlluniau, sy'n dangos glofeydd glo meddal a chaled ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ar gael gan Archifau Morgannwg am £6 yr un neu £10 am y pâr. Codir £2 ychwanegol am eu postio yn y DU.



Susan Edwards
Archifydd Morgannwg



	Archifau Morgannwg Clos Parc Morgannwg Caerdydd CF11 8AW		029 2087 2200
	Glamro@cardiff.gov.uk		www.facebook.com/glamarchives
	www.glamarchives.gov.uk		@GlamArchives

